

# Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint 2015 - 2030

## Archwiliad

---

### Nodyn y Cyfarfod Cyn Gwrandawriad cynhaliwyd ar 12 Ionawr, 2021 (ar-lein)

#### 1. Agoriad a Chyflwyniad

Cyflwynodd yr Arolygydd, Siân Worden (SEW) ei hun a'i chydweithiwr sef yr arolygydd Claire MacFarlane, ac mae'r ddwy yn Gynllunwyr Tref Siartredig a benodwyd gan Weinidogion Llywodraeth Cymru i gynnal archwiliad o gadernid Cynllun Datblygu Lleol Sir y Fflint 2015 - 2030 (CDLI).

Croesewir cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg drwy gydol yr archwiliad. Roedd y cyfieithydd yn bresennol a dangosodd i bawb sut bydd y cyfleusterau cyfieithydd yn gweithio yn y Cyfarfodydd Gyn Gwrandawriad, petai unrhyw gyfranogwr yn dymuno siarad Cymraeg.

Esboniodd SEW mai'r ffordd arferol i gyfeirio at arolygwyr benywaidd oedd Ma'am, neu Fadam, ond roeddent yn hapus i gael eu galw yn ôl eu henw - Mrs Worden a Ms MacFarlane.

Cafwyd rhybudd bod cyfranogwr yn dymuno recordio'r Cyfarfod Cyn Gwrandawriad. Esboniodd SEW os yw unrhyw un yn dymuno gofyn cwestiwn ar ddiwedd y Cyfarfod Cyn Gwrandawriad, ac nid ydynt yn fodlon cael eu recordio, y dylent ddweud cyn gofyn eu cwestiwn, a bydd y recordiad yn cael ei stopio.

Esboniodd SEW, mewn perthynas â chydymffurfio â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol o ran y modd y defnyddir y recordiad, mai cyfrifoldeb yr unigolyn sy'n gwneud y recordiad yw hynny.

#### 2. Pwrpas y Cyfarfod Cyn Gwrandawriad (PHM)

Mae'r archwiliad yn cyfeirio at y broses gyfan, o'r adeg cyflwynodd y Cyngor y Cynllun Datblygu Lleol i Weinidogion Cymru ym mis Hydref 2020, i gyflwyniad ein hadroddiad i'r Cyngor.

Mae rhan gwrandawriadau'r archwiliad yn debygol o gychwyn ddiwedd mis Chwefror, a byddant yn cael eu cynnal ar-lein.

Pwrpas y Cyfarfod Cyn Gwrandawriad oedd rhoi cyfle i'r arolygwyr gyflwyno eu hunain a thîm y Cyngor, ac i esbonio materion gweithdrefnol a gweinyddol sy'n ymwneud â rheoli'r archwiliad. Byddai cynnwys neu teilyngdod y CDLI, neu'r sylwadau a wnaed yn cael eu trafod. Byddai cyfle i ofyn cwestiynau am drefniadau'r archwiliad.

Mae [Nodiadau Cyfarwyddyd](#) sy'n ymwneud â'r archwiliad wedi cael eu llunio a'u cyhoeddi ar [wefan archwilio](#) CDLI y Cyngor.

### **3. Rôl y Swyddog Rhaglen**

Mae Miss Kerry Trueman wedi cael ei phenodi fel Swyddog Rhaglen (SRh) ar gyfer yr archwiliad. Mae hi'n gweithredu fel swyddog annibynnol a diduedd, gan weithio dan gyfarwyddiadau'r arolygwyr. Mae manylion o sut i gysylltu â hi wedi'u nodi yn y llythyr gwahoddiad i'r Cyfarfod Cyn Gwrandawriad, ar y [wefan archwilio](#), ac yn y nodiadau cyfarwyddyd.

Mae Swyddog y Rhaglen yn gyfrifol am:

- ymgysylltu gyda phob parti i sicrhau bod yr archwiliad yn cael ei gynnal yn llyfn
- sicrhau bod pob dogfen a dderbynnir yn ystod yr archwiliad yn cael eu cofnodi a'u rhannu,
- cynnal llyfrgell yr archwiliad, a'n
- cynorthwyo ni gyda phob mater gweithdrefnol a gweinyddol.

Mae modd iddi gynghori ar unrhyw gwestiynau rhaglennu. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau gweithdrefnol neu unrhyw fater arall y mae'r Cyngor neu unrhyw un sy'n dymuno ei godi gyda'r arolygwyr at y SRh.

### **4. Cwmpas yr archwiliad a rôl yr arolygwyr**

Rôl yr arolygwyr yw ystyried a yw'r CDLI yn gadarn. Mae eu hawdurdod i argymhell newidiadau i'r CDLI wedi'i gyfyngu i'r rheiny sy'n angenrheidiol i wneud y CDLI yn gadarn, o'i gymharu â newidiadau a fyddai'n ceisio gwella cynllun cadarn. Byddant yn ystyried y sylwadau a wnaed gan bob parti, ond i'r graddau y byddant yn perthyn i'r profion cadernid yn unig.

Y profion cadernid, sydd wedi cael eu nodi yn y [Llawlyfr Cynlluniau Datblygu](#)<sup>1</sup>, yw, a yw'r cynllun yn addas? (a yw'n glir bod y CDLI yn gyson â chynlluniau eraill?); a yw'r cynllun yn briodol? (a yw'r cynllun yn briodol ar gyfer yr ardal yng ngoleuni'r dystiolaeth?); ac a fydd y cynllun yn cyflawni? (a yw'n debygol o fod yn effeithiol ac a oes modd ei weithredu?).

### **5. Cwestiynau gweithdrefnol i'r Cyngor**

Roedd Andy Roberts (AR) ac Adrian Walters o Gyngor Sir y Fflint yn bresennol yn y Cyfarfod Cyn Gwrandawriad, a nhw fydd prif dystion yn y gwrandawriadau. Byddai swyddogion eraill yn cyfrannu at sesiynau amrywiol y gwrandawriad a byddant yn cael eu cyflwyno fel y byddant yn ymddangos.

Cadarnhaodd AR a oedd y CDLI:

- wedi cael ei baratoi yn unol â gweithdrefnau statudol dan Adran 64(5) (a) Deddf 2004 a'i reoliadau cysylltiedig?

---

<sup>1</sup> Tabl 27 ar frig tudalen 176

- wedi cael ei gefnogi gan Arfarniad o Gynaliadwyedd?
- wedi bod yn destun Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd?
- wedi cydymffurfio gyda gofynion '[Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015 <https://llyw.cymru/deddf-llesiant-cenedlaethau-r-dyfodol-cymru-2015-y-hanfodion>?](https://llyw.cymru/deddf-llesiant-cenedlaethau-r-dyfodol-cymru-2015-y-hanfodion)
- wedi cydymffurfio'n eang gyda pholisi cenedlaethol a rhanbarthol?
- wedi ystyried [Cynllun Gofod Cymru](#)? a
- a oedd ymarfer hunanasesiad wedi cael ei gynnal?

## 6. Sylwadau a wnaed am y CDLI

Cafwyd cyfanswm o 1281 sylwadau ar y CDLI i'w archwilio gan y cyhoedd, gan 657 sefydliad ac unigolyn.

Ac eithrio bod unigolion wedi nodi eu bod yn dymuno cael eu clywed yn y gwrandawriad, bydd eu sylwadau yn cael eu trin gan sylwadau ysgrifenedig. Os oes angen rhagor o wybodaeth ar yr arolygwyr i ddeall sylwadau ysgrifenedig yn iawn, bydd gofyn i'r unigolion hynny, a'r Cyngor gyflwyno sylwadau neu eglurhad ychwanegol.

Mae'r sylwadau a dderbyniwyd yn trafod nifer eang o faterion gan gynnwys strategaeth ddatblygu, dyraniad a nifer tai newydd, gan gynnwys tai fforddiadwy a llety ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, materion ynglŷn â chyflogaeth, manwerthu a thwristiaeth, yn ogystal ag ynni adnewyddadwy.

Cadarnhaodd y Cyngor bod y fersiwn honno o'r CDLI i'w archwilio yn fersiwn i'w harchwilio gan y cyhoedd, ac ystyriwyd bod y CDLI a gyflwynwyd yn gadarn.

Dylai unrhyw newidiadau pellach y mae'r Cyngor yn dymuno eu gwneud yn ystod yr archwiliad fod ar ffurf amserlen a fyddai'n cael ei chyhoeddi ar y wefan archwiliad a'i diweddarau fel y bo'n briodol. Dylid cadw rhestrau ar wahân o fân newidiadau a newidiadau sylweddol ar gyfer pob gwrandawriad, a'r sawl nad ydynt yn berthnasol i unrhyw sesiwn. Dylid cadw'r newidiadau hyn cyn lleied â phosib.

Ar ddiwedd pob sesiwn gwrandawriad, bydd y Cyngor a'r Arolygwyr yn mynd drwy unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu cymeradwyo ac unrhyw faterion eraill sy'n codi yn ystod y gwrandawriad yn gyflym. Cadarnhaodd y Cyngor y byddai'n cadw rhestr o'r rhain, a fyddai'n ffurfio sail i atodlen Newidiadau Materion yn Codi (NMCau) yn y pendraw. Mae croeso i eraill sy'n bresennol yn y gwrandawriadau aros a gwrandao ar y trafodaethau cryno hyn, ond nid oes gofyn iddynt wneud.

## 7. Dulliau o Ystyried Sylwadau

Bydd pob sylwad, boed yn cael ei wneud mewn sesiwn gwrandawriad neu'n ysgrifenedig, yn cael yr un sylw. Bydd yr archwiliad yn canolbwyntio ar faterion sy'n berthnasol i brofion cadernid, ac ni fydd yn canolbwyntio ar wrthwynebiadau unigol.

Y partïon hynny'n sy'n ceisio newidiadau penodol i'r CDLI yn unig sydd â'r hawl i gymryd rhan yn sesiynau'r gwrandawriad, ac nid oes angen i'r sawl sy'n cefnogi neu wneud sylwadau ar y CDLI i fynychu.

## **8. Gweithdrefnau yn sesiynau gwrandawriad o'r archwiliad**

Mae manylion ar gyfer cynnal y gwrandawiadau wedi'u nodi yn y Nodyn Cyfarwyddyd. Bydd rhain fel arfer ar ffurf sesiynau o amgylch y bwrdd, a fydd yn cael eu harwain gan yr Arolygwyr, yn seiliedig ar y rhaglen a ddarparwyd ymlaen llaw. Bydd y dull hwn o weithio yn darparu lleoliad anffurfiol ar gyfer mynd i'r afael â'r materion hyn.

Bydd y drafodaeth ymhob sesiwn o'r gwrandawriad yn canolbwyntio ar y materion a nodwyd ar y rhaglen a bydd y cwestiynau sydd gennym i'w gofyn y Materion a Phroblemau. Byddwn yn dechrau drwy ofyn i'r sawl sy'n bresennol i gyflwyno eu hunain. Yna byddwn yn gwneud sylwadau cryno ar y materion i'w trafod, os yw'n angenrheidiol, yna byddwn yn gwahodd unigolion i wneud eu cyfraniad mewn ymateb i'r pwyntiau rydym wedi eu codi. Yna bydd y gwrandawriad yn symud ymlaen dan ein canllawiau, gan dynnu'r sawl sy'n bresennol i mewn i drafodaeth i'n galluogi ni i ennill y wybodaeth angenrheidiol i ddod i benderfyniad cadarn ar y materion a nodwyd. Gall pob cyfranogwr ofyn cwestiynau ac ymuno yn y drafodaeth. Ar ddiwedd pob sesiwn, bydd gofyn i gyfranogwyr grynhoi prif bwyntiau eu dadleuon.

Caiff y gwrandawiadau eu cynnal ar y sail bod pawb wedi darllen y dogfennau perthnasol, er y bydd cyfranogwyr yn gallu cyfeirio at bwyntiau perthnasol ac ymhelaethu arnynt.

Gall y sawl sy'n mynychu, ddod ag eiriolwyr proffesiynol a thystion gyda nhw, er ni fydd cyflwyniad tystiolaeth ffurfiol fel arfer, na chroesholi chwaith. Nid oes angen i bartion ddod ag eiriolwyr/cynrychiolaeth gyfreithiol. Cadarnhaodd AR ni fydd y Cyngor yn cael ei gynrychioli'n gyfreithiol.

Byddai'r arolygwyr yn ceisio bwrw ymlaen â'r sesiynau gwrandawriad mewn modd effeithiol ac effeithlon, gan gadw gafael gref ar y trafodaethau a'r amser a gymerwyd. Fel rhan o'r broses honno, byddwn yn ceisio lleihau'r nifer o ddeunyddiau ysgrifenedig ychwanegol sydd eu hangen i ddod i gasgliadau deallus am y materion. Fel hynny, byddwn yn gobeithio cynnal cyfres o wrandawiadau cryno, llawn ffocws, ac yn eu tro, byddant yn llunio adroddiad cryno, llawn ffocws.

Cadarnhaodd AW y bydd rhywun yn bresennol bob amser sydd ag awdurdod dirprwyedig i gytuno i newidiadau i'r CDLI. Fe nododd hefyd bod cynllun dirprwyaeth yn cael ei gytuno ar hyn o bryd a byddai hefyd yn gallu diweddarau'r arolygwyr ar ddechrau sesiynau'r gwrandawiadau.

### ***Fformat Ar-lein***

Mae'r fformat hwn ar-lein yn eithaf newydd i'r rhan fwyaf o bobl, ac yn debygol o arwain at ychydig o anawsterau a chymhlethdod nad ellir eu rhagweld. Prif fantais o allu cynnal gwrandawiadau ar-lein yw, er yr amodau heriol iawn rydym yn byw ynddynt ar hyn o bryd, bydd yn bosib symud ymlaen tuag at mabwysiadu CDLI Sir y Fflint, sy'n ddogfen hanfodol er mwyn sicrhau cynllunio priodol yn yr ardal. Y prif bwynt ar gyfer yr Arolygwyr yw na ddylai'r fformat hwn ar-lein fod o anfantais i unrhyw un sydd â hawl cael eu clywed.

Bydd sesiynau'r gwrandawriad yn cael eu cynnal ar-lein ar blatfform Zoom (fel oedd y Cyfarfod Cyn Gwrandawriad, gan gynnwys yr arolygwyr, y SRh, a thîm y Cyngor, drwy fewngofnodi trwy eu cyfrifiaduron. Byddant ar agor i arsyllwyr.

Pwysleisiodd SEW'r gwahaniaeth rhwng cyfranogwyr ac arsyllwyr gan y byddai'r fformat hwn yn llai amlwg ar-lein. Dim ond y rheiny sydd wedi cyflwyno gwrthwynebiad a wnaed yn briodol i'r CDLI sydd â hawl i gael gwrandawriad a gallant gymryd rhan mewn sesiynau gwrandawriad sy'n berthnasol i'w gwrthwynebiad. Petai'r gwrandawriadau yn cael eu cynnal mewn ystafell gorfforol, byddai'r cyfranogwyr yn eistedd o amgylch bwrdd, gyda'r Arolygwyr ac aelodau o dîm y Cyngor; byddant yn ymuno yn y drafodaeth ac yn gallu gofyn ac ateb cwestiynau.

Gall unrhyw un arsylwi gwrandawriad. Mewn ystafell go iawn, byddai'r arsyllwyr yn eistedd mewn rhesi tu ôl, neu wrth ochr bwrdd y gwrandawriad. Nid oes modd i arsyllwyr siarad yn y gwrandawriad na chymryd rhan mewn unrhyw fodd.

Gan y bydd pawb dan sylw yn gweithio ar sgriniau, sy'n gallu bod yn ddwys ac yn flinedig, bydd seibiau rheolaidd yn ystod y gwrandawriadau, bob tua 90 munud. Yn ystod seibiant, peidiwch ag allgofnodi na gadael y sesiwn, ond diffoddwch eich microffon a'ch camera. Mae arolygwyr o hyd yn gweithio o gartref yn bennaf, ac maent wedi cael eu gosod yn dda i wneud hynny. Rydym yn ymwybodol efallai nad yw rhan fwyaf o'r cyfranogwyr eraill mor ffodus, a gall arwain at oedi neu ymyrraeth.

Yn ystod y digwyddiad, a fyddai cyfranogwyr cystal â chadw camerâu a microffonau wedi eu diffodd nes y gwahoddir chi i siarad, o leiaf ar ddechrau'r gwrandawriad. Ar Zoom, mae cyfleuster ar gael i chi roi gwybod eich bod yn dymuno siarad, er enghraifft botwm codi llaw. Dylai arsyllwyr sicrhau bod eu microffonau a'u camerâu wedi diffodd trwy gydol y sesiwn. A fyddech cystal a sicrhau hefyd, os oes gennych ffôn wrth eich ymyl, eich bod wedi ei thawelu neu bod galwadau wedi cael eu dargyfeirio.

Bydd cyfranogwyr wedi'u grwpio ar y rhaglen, yn ôl y problemau a materion i'w hystyried. Os oes gan sawl un yr un farn, er enghraifft pawb sy'n gwrthwynebu safle neu ddyrniad penodol, bydd yr arolygwyr yn disgwyl iddynt benodi un neu ddau llefarydd i'w cynrychioli yn sesiwn y gwrandawriad; ni fyddwn eisiau clywed gan bawb ar un pwyntiau, neu bwyntiau tebyg iawn.

Bydd hyn yn fwy o her yn ystod digwyddiad ar-lein pan nad yw pobl yn yr un lleoliad, ac nid oes modd iddynt drafod yr achos yn hawdd. Efallai y byddai'n bosibl, fodd bynnag, cael llefarydd ar gyfer un mater/safle sy'n gwneud y mwyafrif o'r siarad yn ystod rhan berthnasol o'r gwrandawriad.

Gall peidio bod yn yr un ystafell a gallu trafod gyda'n gilydd fod yn anodd i dîm y Cyngor hefyd, yn ogystal â'r ymgynghorwyr. Os yw unrhyw gyfranogwr eisiau seibiant hirach neu egwyl yn ystod y gwrandawriad, gofynnwch i'r Arolygydd.

Yn dibynnu i ba raddau fydd rheoliadau Covid ar adeg y gwrandawriadau, efallai bydd gan rai gyfrifoldebau dysgu o gartref, neu gyfrifoldebau gofalu a fyddai'n amharu ar eu gallu i gymryd rhan yn y gwrandawriadau. Mynegwch unrhyw bryderon am hyn gyda'r SRh.

Mae swyddogaeth sgwrsio ar Zoom, ond ar hyn o bryd, ni ddylai unrhyw un ei defnyddio.

Efallai bydd problemau TG, megis colli cysylltiad, yn digwydd yn ystod y digwyddiadau. Os oes unrhyw gyfranogwyr yn dioddef o unrhyw broblemau TG, yn gyntaf byddwn yn oedi'r digwyddiad am 5 munud. Yn y cyfnod hwnnw, dylech geisio mewngofnodi yn ôl yn syth, yn yr un ffordd ag y byddech wedi'i wneud ar ddechrau'r digwyddiad.

Os yw'r broblem yn parhau mae'n bosibl y gellir oedi yn hirach ac os nad oes modd datrys y broblem mae'n bosibl y bydd angen i ni ohirio tan ryw ddiwrnod arall. A fydd y cyfranogwyr cystal â chadw rhif ffôn y SRh gerllaw yn ystod y gwrandawiadau, fel y gallant eu hysbysu os oes problemau cysylltu. Bydd sesiynau yn cael eu cynnal i ymarfer cyn y gwrandawiadau i ymgyswngwyo'r cyfranogwyr gyda'r fformat ar-lein. Bydd rhagor o wybodaeth a chyfarwyddiadau ar sut i ymuno neu wyllo'r gwrandawiadau yn cael eu darparu yn nes at yr amser.

## **9. Rhaglen wrandawiadau'r archwiliad gan gynnwys materion i ddadlau yn eu cylch**

Bydd rhestr o Faterion a Phroblemau, sy'n cynnwys cwestiynau sydd wedi codi o ddarlleniad yr arolygwyr o'r cynllun, y drysorfa dystiolaeth a dogfennau craidd eraill a sylwadau, yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr archwiliad yn y man – gobeithio erbyn canol wythnos nesaf [20.1.21]. \* Bydd hyn yn darparu ffocws ar gyfer yr archwiliad ac yn galluogi'r arolygwyr i asesu a yw'r CDLI yn gadarn ac yn cydymffurfio gyda'r gofyniadau cyfreithiol. Dylid defnyddio'r cwestiynau fel strwythur ar gyfer cyflwyniadau pellach mae'r cyfranogwyr yn eu gwneud. Bydd yr arolygwyr yn eu defnyddio fel canllaw i lywio'r drafodaeth yn y gwrandawiadau ac yn cyfeirio atynt yn yr adroddiad terfynol.

Bydd y prif faterion a fydd yn cael eu trafod yn sesiynau'r gwrandawriad yn cael eu nodi mewn termau eang ar y rhaglen ddrafft. Cyn y gwrandawiadau, bydd rhaglen fanwl ar gyfer pob sesiwn, yn seiliedig ar y Materion a'r Problemau yn cael ei chyhoeddi. Bydd y rhaglenni ar gael o leiaf un wythnos cyn bob sesiwn gwrandawriad.

Os yw unrhyw un sy'n bodloni'r meini prawf eisiau cael eu clywed, a heb hysbysu'r SRh eto, dylent wneud hynny erbyn dydd Gwener. Bydd rhaglen ddrafft yn cael ei chyhoeddi'n fuan ar ôl y Materion a'r Problemau. Pan ddaw ar gael, dylai pob cyfranogwr ei wirio. Os yw unrhyw un wedi gwneud cais i gael eu clywed, a heb eu cynnwys ar y rhestr gyfranogwyr yn y rhaglen ddrafft, cysylltwch â'r SRh cyn gynted â phosib. Os yw unrhyw un a oedd wedi dymuno cael eu clywed yn wreiddiol yn penderfynu y byddant yn dibynnu ar eu sylwadau ysgrifenedig yn unig, dylent gysylltu â'r SRh cyn gynted â phosib. Bydd cyfranogwyr yn cael eu haseinio i'r sesiynau mwyaf priodol yn seiliedig ar eu sylwadau, ond os yw unrhyw un yn meddwl eu bod wedi cael eu rhoi yn y sesiynau anghywir, rhowch wybod i'r SRh.

Gwneir pob ymdrech i gadw at y rhaglen ond mae'n bosibl na fydd modd osgoi rhai newidiadau hwyr. Bydd y SRh yn hysbysu'r cyfranogwyr o unrhyw newidiadau hwyr i'r amserlen ond y cyfranogwyr fydd yn gyfrifol am ofalu bod y trefniadau a'r rhaglen gyfredol ganddyn nhw.

## **10. Paratoi a Chyflwyno Deunyddiau Pellach**

O hyn ymlaen, dylai sylwadau gan gyfranogwyr gyfeirio at y materion a'r problemau a nodwyd yn unig. Dylent gymryd ffurf datganiad cryno i gyfeirio at rai neu pob mater a nodwyd ac ymateb i'r cwestiynau perthnasol. Dylai'r Cyngor baratoi datganiad ar gyfer pob gwrandawriad sy'n trafod yr holl faterion a'r problemau a godwyd. Os yw unrhyw un, gan gynnwys y Cyngor, yn ystyried bod unrhyw gwestiwn eisoes wedi cael ei ateb yn y dogfennau craidd, nid oes angen iddynt aralleirio neu ailadrodd y fath ymatebion, ond yn hytrach, cyfeirio at y ddogfen, gan gynnwys rhif y dudalen/paragraff.

Mae manylion pellach ar gynnwys a therfyn amser y sylwadau wedi eu nodi yn y Nodyn Cyfarwyddyd. Glynwch at y canllawiau o ran chyflwyno deunyddiau ysgrifenedig a therfynau amser. Nid yw sylwadau hwyr a phapurau ychwanegol yn debygol o gael eu derbyn.

Os yw cyfranogwyr yn ystyried bod eu sylwadau gwreiddiol yn trin y materion y maent yn dymuno eu trafod, nid oes angen iddynt gyflwyno datganiad pellach. Mewn amgylchiadau fel hyn, byddai'n help pe bai'r cyfranogwyr yn hysbysu'r SRh os nad ydynt yn bwriadu chyflwyno datganiadau pellach. Nodwch mai copïau o'r sylwadau a wnaed ar y cam chyflwyno'n unig sydd gan yr arolygwyr. Nid oes ganddynt gopïau o unrhyw ohebiaeth a gyflwynwyd i'r Cyngor cyn i'r CDLI fod ar gael i'w archwilio gan y cyhoedd.

## **11. Argaeledd gwybodaeth**

Mae'r SRh yn cynnal y [wefan archwilio](#) sy'n cynnwys dogfennau craidd a dogfennau i'w harchwilio, dogfennau cefndir a dogfennau eraill sy'n debygol o gael eu cyfeirio atynt, i gynnwys crynodebau o sylwadau a datganiadau'r gwrandawriad. Mae'r rhestr ddogfennau a gael ar y wefan archwilio, lle mae'n bosib hefyd archwilio'r holl ddogfennau a gyflwynwyd, crynodebau o'r sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas â fersiwn o'r CDLI i'w archwilio gan y cyhoedd, a newidiadau, yn ogystal ag ymateb y Cyngor i'r sylwadau hyn.

Dylai cyfranogwyr sicrhau bod unrhyw ddogfen maent yn bwriadu cyfeirio ati fod ar y rhestr o ddogfennau craidd; dylid anfon unrhyw ddogfennau sydd ar goll i'r SRh dros e-bost.

## **12. Trefniadau Ymweliadau Safle**

Bydd yr arolygwyr yn cynnal ymweliad ymgyfarwyddo o'r ardal, ac ar ôl y gwrandawriadau, bydd ymweliadau safle i'r lleoedd y cyfeirir atynt yn y sylwadau ar sail heb dywys. Os yw rheswm penodol am ymweliad wedi'i dywys, dylai'r cyfranogwyr drafod hyn gyda'r Swyddog Rhaglen.

## **13. Diwedd yr archwiliad**

Bydd yr archwiliad yn dal i fod ar agor nes bod adroddiad yr Arolygwyr wedi'i gyflwyno i'r Cyngor. Ni fydd sylwadau neu dystiolaeth bellach yn cael eu derbyn ar ôl i sesiynau'r gwrandawriad ddod i ben. Mae'r archwiliad yn parhau i fod ar agor i

alluogi'r arolygwyr i wneud cais am wybodaeth bellach os oes diffyg yn cael ei nodi. Mae unrhyw ddeunyddiau hwyr neu ddigymell yn debygol o gael eu dychwelyd.

#### **14. Cyflwyno Adroddiad yr Arolygwyr**

Ar ôl i Sesiynau'r Gwrandawiadau ddod i ben, a'r ymgynghoriad angenrheidiol gael ei gwblhau, bydd adroddiad yr arolygydd, gydag argymhellion atodol yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor. Bydd y dyddiad cyflwyno yn dibynnu i raddau helaeth ar gynnwys, maint a hyd yr archwiliad. Bydd y dyddiad tebygol yn cael ei gadarnhau ar ddiwedd sesiynau'r gwrandawriad.

#### **15. Cwestiynau**

Mewn ymateb i'r cwestiynau gan fynychwyr, cadarnhaodd SEW:

- y byddai'r arolygwyr a'r SRh yn trafod mesurau i sicrhau bod pob cyfranogwr yn ymwybodol i ddogfennau sy'n dod i mewn, a gwybodaeth hwyr yn enwedig. Nododd AR y byddai tîm y Cyngor yn gwneud eu gorau glas i gyflwyno gwybodaeth yn brydlon;
- byddai dyddiad cau o bythefnos cyn bob gwrandawriad, a dylid cyflwyno datganiadau (ar gyfer y gwrandawriad hwnnw) erbyn hynny;
- byddai pob safle/dyraniad/polisi sydd wedi cael ei wrthod, a lle'r oedd gwrthodwyr yn dymuno mynd i wrandawiadau i drafod yn cael eu cynnwys ar y rhaglen;
- dylid pasio ceisiadau ar gyfer materion eraill heb eu nodi ar y rhaglen i'w trafod ymlaen i'r SRh i'w hystyried gan yr arolygwyr; serch hynny, ni fydd safleoedd amgen yn cael eu hystyried gan yr arolygwyr, ac eithrio eu bod wedi canfod bod yr angen o ran tai a/neu'r dyraniadau tai yn annigonol;
- yn ogystal â'r deunydd sy'n gysylltiedig â'r CDLI, wrth eu cyflwyno i'r Arolygiaeth Gynllunio, roedd gan yr arolygwyr fynediad drwy wefannau archwilio CDLI Sir y Fflint i'r holl wybodaeth a dogfennau a baratowyd ar gyfer y camau blaenorol yn y broses baratoi;
- bydd cysylltiadau electronig yn cael eu cynnwys yn nodyn y Cyfarfod Cyn Gwrandawriad [y nodyn hwn] lle bynnag fo'n bosib;
- nid oedd yr arolygwyr yn ymwybodol o'r mater mewn perthynas â diogelu data, ond yn dilyn crynodeb o'r digwyddiad gan AR, nid oeddent yn ystyried ei fod yn arwyddocaol i'w harchwiliad o'r CDLI. Pwysleisiodd SEW y byddai hyn yn canolbwyntio ar gadernid y cynllun fel y nodir ym mhroffion Canllaw y CDLI;
- ar hyn o bryd, nid oedd angen copïau caled ar yr arolygwyr o unrhyw ddogfennau, er efallai bydd rhai achlysuron yn y dyfodol pan fyddant yn ddefnyddiol;
- y wefan archwilio fyddai prif ffynhonnell y wybodaeth am y gwrandawiadau, gan gynnwys y rhaglen (a fyddai'n dangos y materion i'w trafod, pryd a phwy



oedd yn gallu cymryd rhan ymhob un) a'r dogfennau ar gael. Pwysleisiodd y SRh os oedd unrhyw un angen cymorth, gan gynnwys dod o hyd i ddogfennau sy'n berthnasol i'w diddordebau, y byddai'n hapus i helpu;

- petai unrhyw un eisiau gofyn cwestiwn a heb allu, neu wedi meddwl am ymholiad ar ôl y cyfarfod, dylent ei basio ymlaen i'r SRh i'r arolygwyr ei hystyried.

## **16. Diwedd y Cyfarfod**

Daeth y cyfarfod i ben am 16.30. Diolchodd SEW i bawb a oedd yn bresennol am ddod, a dywedodd y byddai'r arolygwyr yn edrych ymlaen at gyfarfod pawb a fyddai'n dod i'r gwrandawiadau.

SEW/CM  
Ionawr 2021

\* Nid yw'n debygol erbyn hyn y bydd y Materion a'r Problemau yn cael eu cyhoeddi mor fuan a ddisgwyliwyd yn y Cyfarfod Cyn Gwrandawriad.